LEWIS, ALUN (1915 - 1944), bardd

Enw: Alun Lewis
Dyddiad geni: 1915
Dyddiad marw: 1944
Priod: Gweno Mererid Lewis (née Ellis)
Rhiant: Gwladys Elizabeth Lewis (née Evans)
Rhiant: Thomas John Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Gwyn Jones

Ganwyd 1 Gorffennaf 1915 yn Aberdâr, mab Thomas John Lewis, ysgolfeistr, a Gwladys Elizabeth (née Evans). Cafodd ei addysg yn ysgol elfennol Glynhafod, 1920-26, ysgol ramadeg y Bont-faen, 1926-32, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, 1932-35 (B.A., gydag anrhydedd mewn hanes), Prifysgol Manceinion, 1935-37 (M.A. ar ôl arbenigo yn hanes y canol oesoedd), a thrachefn yn Aberystwyth, 1937-38. Bu'n athro am gyfnod yn ysgol Lewis, Pengam, eithr ymunodd â'r fyddin ym mis Mai 1940 heb aros am ei alw. Yr oedd wedi dechrau ysgrifennu i gyfnodolion llenyddol yn 1938; yn 1940-41 yr oedd yn un o gychwynwyr antur y '*Caseg Broadsheets*'. Ar 5 Gorffennaf 1941 priododd Gweno Ellis, Aberystwyth. Y flwyddyn honno ymddangosodd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth, *Raiders' Dawn*; yn 1942 cafwyd cyfrol o ystorïau byrion, *The Last Inspection*. Gwnaethpwyd ef yn swyddog yn y fyddin ym mis Hydref 1941 a'r flwyddyn wedyn aeth i'r India. Ar 5 Mawrth 1944, ac yntau yn lifftenant yn chweched bataliwn y South Wales Borderers, bu farw yng ngwasanaeth ei wlad ar y ffrynt yn Arakan. Cyhoeddwyd ail gyfrol o farddoniaeth, *Ha, ha! Among the Trumpets*, wedi ei farw; cafwyd yn 1946 ddetholiad o'i lythyrau at ei rieni a'i wraig, *Letters from India;* cyhoeddwyd hefyd (1948) ystorïau na chasglwyd mohonynt cyn hynny ynghyd ag ad-argraffiad o'r llythyrau o'r India yn *In the Green Tree*. Ni bu iddo ef a'i wraig blant.

Awdur

Yr Athro Gwyn Jones, (1907 - 1999)

Ffynonellau

In the Green Tree (Llundain 1948) (rhagair gan A. L. Rowse ac ôl-ysgrif gan Gwyn Jones)

Alun John, *Alun Lewis* (1970)

John Pikoulis, *Alun Lewis, a life* (1983)

Gwenno Lewis, ed., *Alun Lewis, letters to my wife* (1989)

Ulrich Schäfer, *Alun Lewis, a bibliography* (1986)

Cary Archard, ed., *Alun Lewis Collected Poems* (1994)

Darllen Pellach

Zoe Brigley Thompson, A Song Like a Branch of Cherries: Alun Lewis, the Letter and the Epistolary Poem, *Poetry Wales*, Cyf.51, rhif 2, Gaeaf 2015, tt.20-22

Jeremy Hooker, Alun Lewis: 'the tragic condition', *Poetry Wales*, Cyf.51, rhif 2, Gaeaf 2015, tt.22-26

Erthygl Wicipedia: Alun Lewis

Gweithiau

Archifau LlGC: Alun Lewis MS.1: Poems published in Raiders' Dawn and Other Poems

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Alun Lewis Papers

VIAF: 7424919

Wikidata: Q3399847

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu